ARGYMHELLION COMISIWN RICHARD A DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006

Yn 2002, sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gomisiwn dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd (Ivor) Richard o Rydaman, er mwyn archwilio pwerau a threfniadaeth etholiadol y Cynulliad ac i gynhyrchu adroddiad annibynnol ar y materion hyn. Ar ôl proses o ymgynghori eang a chasglu tystiolaeth gynhwysfawr, cyflwynwyd adroddiad y Comisiwn ym mis Gorffennaf 2004 ac fe wnaed cyfres o argymhellion ar y modd y gellid datblygu datganoli yng Nghymru. Derbyniodd yr argymhellion gefnogaeth traws-bleidiol, oddi mewn i'r Comisiwn a thu allan iddo.

Ymateb Llywodraeth y DG i argymhellion Richard oedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a gyflwynodd y model presennol ar gyfer datganoli yng Nghymru. Roedd y ddeddf yn cynnwys pwerau deddfu cyfyngedig, pwerau y gellir eu ehangu o dipyn i beth dros amser trwy gyfrwng Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datganoli pwerau deddfu cynradd i'r Cynulliad, yn ddibynnol ar ganlyniad refferendwm.

Mae darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn wahanol mewn sawl ffordd i argymhellion Comisiwn Richard. Amlinellir y gwahaniaethau hyn isod.

Y weledigaeth gyffredinol	
Comisiwn Richard	'Gwneud prosesau llywodraeth ddatganoledig yn fwy atebol ac yn fwy eglur i'r cyhoedd ehangach, a ... rhoi'r offer i Lywodraeth y Cynulliad weithredu ei pholisïau'n uniongyrchol a throi ei blaenoriaethau a'i hamserlenni yn ddeddfwriaeth'.[1]
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	'Creu ffordd ymarferol, yn seiliedig ar synnwyr cyffredin, tuag at well llywodraethu … wedi'i bwriadu i ateb gofynion a dyheadau pobl Cymru'.[2] Yn ymarferol: crëwyd system o drefniadau hynod gymhleth, sydd yn anodd iawn hyd yn oed i gyfreithwyr ei deall.

Rhannu gweithgarwch gweithredol a deddfwriaethol	
Comisiwn Richard	Y Cynulliad Cenedlaethol i gael ei newid o fod yn un corff corfforaethol i fod yn gorff ag iddo sefydliadau deddfwriaethol a gweithredol ar wahân.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Newidiwyd y corff corfforaethol unigol yn sefydliadau deddfwriaethol a gweithredol ar wahân (y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru). Cafodd amrywiaeth eang o bwerau eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad.

Pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad	
Comisiwn Richard	Cynulliad deddfwriaethol ar fodel Deddf yr Alban 1998, yn galluogi i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar bob mater ar wahân i'r rheiny sydd yn dod dan rym penodol San Steffan.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Cynulliad deddfwriaethol ar fodel gwahanol. Hyd yn oed ar ôl cyflwyno 'pwerau deddfu cynradd' mwy anarferol, bydd y Cynulliad ddim ond cyn gallu ddeddfu ar faterion sydd wedi eu dirprwyo yn benodol iddo, nid pŵer cyffredinol i ddeddfu ar bob mater sydd heb ei eithrio.

1 *Adroddiad Richard*, penn. 14, para. 14
2 Rhagair y gweinidog i gyhoeddiad y Swyddfa Gymreig *Better Governance for Wales* Cm 6582

Amserlen ar gyfer cyflwyno'r newidiadau	
Comisiwn Richard	Y pwerau deddfwriaethol newydd i gael eu gweithredu erbyn 2011 neu cyn hynny os yn bosib. Y cyfyngiad mwyaf rhagweladwy i weithredu'r newidiadau hyn yw'r angen i adolygu ffiniau etholiadol.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Mae'r Ddeddf yn benagored o ran amseru. Mae *Cytundeb Cymru'n Un*, fodd bynnag, yn cyfeirio at gynnal refferendwm ar 'bwerau deddfwriaethol cynradd' cyn neu ar ddiwedd tymor deddfwriaethol 2011.

Refferendwm	
Comisiwn Richard	Ni roddir barn ar ba un ai oes angen un ai peidio, ond mae'r adroddiad yn derbyn yr angen i ymgynghori â phobl Cymru ynglŷn â newidiadau pwysig i'r modd y cânt eu llywodraethu.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Angen refferendwm cyn y gellir datganoli 'pwerau deddfwriaethol cynradd'. Mae angen caniatâd pum corff ar gyfer refferendwm: Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu gyda mwyafrif o ddau draean, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r ddau Dŷ Seneddol yn San Steffan.

Maint y Cynulliad Cenedlaethol	
Comisiwn Richard	80 Aelod Cynulliad, er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu archwilio deddfwriaeth a bod Gweinidogion yn atebol.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	60 Aelod Cynulliad, heb broses ar gyfer newid.

System etholiadol	
Comisiwn Richard	Pleidlais sengl drosglwyddadwy, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gymesur, gytbwys a chydradd ymysg Aelodau Cynulliad
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Y system bresennol ar gyfer aelodau ychwanegol i gael ei gadw. Gwaharddiad ar 'ymgeiswyr dwbl', system nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw system ddemocrataidd arall.

Trefniadau trawsnewidiol	
Comisiwn Richard	'Partneriaeth ddeddfwriaethol newydd' yn defnyddio pwerau dirprwyedig mewn deddfwriaeth gynradd er mwyn 'ehangu profiad o greu polisi a deddfu trwy ddeddfwriaeth eilradd' i gael ei gweithredu'n syth.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	System gymhleth i drosglwyddo pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn dwy ffordd – 'fframwaith pwerau deddfwriaethol', a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCOs) i drosglwyddo grymoedd deddfwriaethol trwy orchymyn a chyngor. Mae pob un o'r dulliau hyn nawr yn newid Schedule 5 Deddf 2006, sydd yn disgrifio pwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Golyga hyn bod pwerau'r Cynulliad yn newid trwy'r amser, felly mae yna botensial ar gyfer cryn ansicrwydd ynghylch ble yn union mae grymoedd penodol yn bodoli.

Pwerau newid cyfraddau treth	
Comisiwn Richard	'Dymunol ond ddim yn angenrheidiol'.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Dim pŵer i newid cyfraddau treth a dim darpariaeth ar gyfer cyflwyno'r mesurau hynny

Rôl yr Ysgrifennydd Gwladol	
Comisiwn Richard	Dim sylw penodol i'r mater.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'i hawl presennol i fynychu ac i gymryd rhan (ond nid i bleidleisio) yn y Cynulliad Cenedlaethol ac i dderbyn papurau'r sefydliad. Gall ddirprwyo'r hawl i fynychu a chymryd rhan i weinidogion eraill y DU. Mae ganddo'r hawl hefyd i benderfynu a ddylid rhoi cynigion ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad gerbron Senedd San Steffan ac i benderfynu a ddylid rhoi cynnig am refferendwm gerbron Senedd San Steffan, hyd yn oed os yw'r Cynulliad wedi pleidleisio o 2 i 1 o blaid hynny yn ôl telerau'r Ddeddf.

BARN CYMRU YFORY

Mae Cymru Yfory'n ystyried nad yw'r trefniadau presennol yn cyfateb â'r dyheadau a fynegir yn Adroddiad Comisiwn Richard, a'u bod yn set o drefniadau sydd yn hynod o gymhleth ac nad ydyn nhw'n debygol o arwain at lywodraethu effeithiol nac atebolrwydd democrataidd clir.

Mae cymhlethdod y trefniadau presennol yn destun cryn gonsyrn ac mae'r pecyn o rymoedd deddfwriaethol sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn aneglur a chymhleth, a hynny gwta chwe mis wedi i'r trefniadau newydd ddod i rym. Mae Atodlen 5 Deddf 2006 yn dangos bod yna nifer o rymoedd wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad – weithiau mewn termau cyffredinol eang, weithiau'n gyfyng a chul ac weithiau gyda nifer o eithriadau cymhleth. Mae'r fath gymhlethdod yn ei gwneud hi'n anodd iawn gwybod i sicrwydd ymhle yn union mae grymoedd penodol a sut y gellir defnyddio'r grymoedd hynny.

R'yn ni'n galw am symleiddio ac eglurhad o bwerau deddfwriaethol y Cynulliad cyn gynted â phosib. R'yn ni hefyd yn galw am fynd i'r afael â'r argymhellion hynny yn adroddiad Comisiwn Richard nad yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi sylw iddynt, yn arbennig y nifer o Aelodau Cynulliad, rôl yr Ysgrifennydd Gwladol, yr angen am bwerau i godi trethi'n uniongyrchol a'r system etholiadol.